YSGOL BRO CINMEIRCH

LLAWLYFR
Y CYFNOD SYLFAEN I RIENI
Medi 2021
FOUNDATION PHASE
HANDBOOK FOR PARENTS
SEPTEMBER 2021

Ffôn/Phone 01745 890347
bro.cinmeirch@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Rieni
Diolch yn fawr i chi am ddewis anfon eich plentyn i Ysgol Bro Cinmeirch. Rwy'n hyderus y bydd eich plentyn a chithau yn hapus iawn fel rhan o deulu'r ysgol. Byddwch chi fel rhieni a ninnau fel staff yn cydweithio'n agos dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau y bydd cyfnod eich plentyn yn yr ysgol yn un hapus a llwyddiannus a bythgofiadwy.

Eleni, oherwydd y sefyllfa gyda Covid-19, mae ein trefniadau i'ch croesawu yn gorfod bod yn wanhanol iawn i'r arfer ac mae'n anffodus na chawn gyfle i gyfarfod fel sy'n arferol yn yr ysgol cyn gwyliau'r haf. Er hynny, gallaf eich sicrhau ein bod yn barod ar gyfer eich plentyn ac yn edrych ymlaen i'w groesawu/chroesawu i'r ysgol. Bydd cyfle i chi a'ch plentyn fy nghyfarfod i a staff yr ysgol ynghyd a'r rhieni eraill ar brynhawn Gwener, Medi'r 3ydd am 1 o'r gloch yn yr ysgol. Cewch gyfle hefyd i weld yr ardaloedd dysgu ac i holi unrhyw gwestiynau sydd gennych mewn awyrgylch anffurfiol. Yn y cyfamser mae croeso i chi ffonio Mrs Griffiths neu e-bostio i holi unrhyw gwestiynau.

Dear Parents
Thank you for choosing to send your child to Ysgol Bro Cinmeirch. I am confident that your child and yourselves will be very happy as part of the school family. You as parents and we as staff will work closely over the next few years to ensure that your child's time at school will be a happy, successful and unforgettable one.

This year, due to the Covid-19 situation, our arrangements to welcome you have had to be very different to our usual practice and it is unfortunate that we did not have the opportunity to meet as we usually do before the summer holidays. However, I can assure you that we are ready for your child and look forward to welcoming him/her to school. There will be an opportunity for you and your child to meet the school staff and myself along with the other parents on Friday September 3rd at 1o'clock the school. You will also have the opportunity to view the learning areas and ask any questions you may have in an informal atmosphere. In the meantime, if you would like a chat, feel free to phone Mrs Griffiths or email to ask any questions.

Mrs Gwennol A Ellis

Pennaeth / Headteacher

Staff y Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase Staff

Athrawon/*Teachers:*

Mrs Sian Griffiths –Arweinydd Cyfnod Sylfaen/ Foundation Phase Leader
-Meithrin a Derbyn (Nursery and reception)
Miss Eleri Davies / Miss Ffion Morgan– Blwyddyn 1 a 2 (Year 1 and 2)

Cymhorthyddion/Teaching Assistants

Mrs Bethan Baldry
Mrs Kim Roberts- Jones
Mrs Catrin Haf Jones

Ein nod yn y cyfnod sylfaen yw symbylu'r plant i fod yn ddysgwyr hapus, annibynnol mewn amgylchedd sy'n hybu hunan-ddisgyblaeth a hunan-barch.
Our aim in the Foundation phase is to motivate children to be independent,happy learners within an environment that promotes self-discipline and self-respect.

Dechrau'r ysgol
Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu penblwydd yn dair oed.
Bydd plant yn cael dechrau'r ysgol yn llawn amser yn y mis Medi sy'n dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

Starting School
Children are admitted to the school on a part time basis, at the beginning of the term following their third birthday.
Children can start full time education in the September following their fourth birthday.

Gwisg Ysgol
Er nad yw gwisg ysgol yn orfodol, mae ein holl ddisgyblion Meithrin wedi tueddu i fynychu'r dosbarth Meithrin mewn crys chwys neu gardi 'nefi' a polo gwyn gyda legins / trowsus tywyll neu ffrog gingham glas a gwyn golau neu siorts ar gyfer tywydd cynhesach. Mae hyn yn helpu'r plentyn i deimlo'n rhan o 'deulu' yr ysgol. Mae'r eitemau swyddogol gyda logo'r ysgol ar gael i'w prynu gan 'Workforce Workplace' ar yr ystâd Ddiwydiannol yn Rhuthun. Bydd angen potel ddŵr ar bob disgybl - wedi'i llenwi gartref a'i gludo yn ôl gyda nhw ar ddiwedd y sesiwn.

School Uniform
Although school uniform is not compulsory, all our Nursery pupils have tended to attend Nursery class in the navy sweatshirt or cardi and white polo with dark leggings/trousers or light blue and white gingham dress or shorts for warmer weather. This helps the child to feel part of the school's 'family'. Thes uniform items are available to buy with the school logo from 'Workplace Workforce' on the Industrial estate in Ruthin. All pupils will need a water bottle - filled from home and taken back with them at the end of the session.

Ymarfer Corff / P.E. (Dim angen dillad ar blant meithrin/Nursery pupils do not need P.E clothes)

Trowsus byr du a chrys polo gwyn. Mae'r plant fel arfer yn gadael rhain mewn bag ar eu peg am hanner tymor cyn mynd a nhw adref i'w golchi.
Black shorts and white polo shirt. These are usually left in a bag on the child's peg and taken home at the end of the half term to wash.

Gofynnir i chi roi enw ar bob un eitem o ddillad eich plentyn os gwelwch yn dda (mae ysgrifennu gyda beiro ar label y dilledyn yn effeithiol). Hefyd, ysgrifennwch enw eich plentyn tu mewn i'r ddwy esgid – mae llawer o blant yn gwisgo esgidiau yr un fath!
Please put your child's name on each eitem of clothing (writing with biro on the label is an efficient way of doing this). Also, please write your child's name inside each shoe – many children have identical shoes!

Gellir cael bag llyfrau darllen o'r ysgol. (Dosbarth derbyn i fyny)
A reading bag will be available from school. (Reception class up)

Byr-bryd/ Tamaid
Gofynnir i chi anfon darn o ffrwyth ar gyfer ei fwyta yn ystod y bore e.e. banana/ afal/ciwcymber wedi ei lapio mewn ffoil (os nad yn fanana). Bydd y plant yn bwyta eu ffrwyth o dan oruchwyliaeth aelod o staff ac nid wrth chwarae'n rhydd ar y cae/buarth. Bydd llaeth ar gael hefyd am ddim i'w yfed yn ystod y bore.

Morning snack (this is called 'tamaid' in our school)
Please provide a piece of fruit for your child to eat during the morning e.g. banana/apple/cucumber, wrapped in foil (if not a banana). The children will eat their fruit under staff supervision and not whilst playing on the yard/field. Milk will be provided during the morning, free of charge.

Mae Ysgol Bro Cinmeirch yn Ysgol Iach ac rydym yn dibynnu ar ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth rhieni i hyrwyddo arferion bwyta a byw'n iach ein disgyblion.

Ysgol Bro Cinmeirch is a Healthy School and we rely on and value the support of parents to promote our pupils' healthy eating and living practices.

Amserau Ysgol/*School Times*

Addysg rhan-amser i'r dosbarth Meithrin 9.00 – 11.30a.m.
Bydd prif ddrws yr ysgol ar agor am 8.45y.b. Bydd aelod o staff yn y cyntedd i'ch croesawu bob bore. Disgwylir i'r plant fynd allan i'r buarth i aros nes y bydd y gloch yn canu lle bydd aelodau staff yn eu goruchwylio (neu i'r neuadd os nad yw'r tywydd yn ffafriol). Dylai pob plentyn wisgo cot sydd yn addas i'r tywydd. Ar y dechrau, mae'n bosib na fydd eich plentyn am i chi ei adael/gadael. Mae hyn yn gwbl naturiol ond gofynnwn i chi adael eich plentyn yng ngofal y staff yn ddi-ffwdan gan ei sicrhau y byddwch yn dychwelyd yn fuan.Yn aml iawn mae'r plentyn yn setlo o fewn ychydig funudau.

Mae'n bosib i'r plant drosglwyddo o ofal yr ysgol i ofal **CYLCH MEITHRIN LLANRHAEADR** am 11.30am. Byddant wedyn yn cael cinio yn yr ysgol ac yn aros yn y Cylch tan 3.00pm. Codir tâl am hyn a gellir cael y manylion trwy'r ysgol neu trwy ffonio 07754 227312

Nursery class session from 9.00 – 11.30am
The main door to the school will be open from 8.45a.m. A member of staff will be in the foyer to welcome you every morning. Pupils should go out to the yard to play until the bell rings where they will be supervised at all times (or to the school hall if the weather does not permit). In the first few days, it is possible that your child will not want to be separated from you. This is perfectly normal but we ask you to leave your child in the care of a member of staff and assure them that you will return soon.They normally settle within a few minutes.

It is possible for the children to go from the Nursery Class to the care of the ***Cylch Meithrin Llanrhaeadr*** *nursery group at 11.30am. They then have lunch in school and stay in the Cylch until 3.00pm. This is a fee paying playgroup and details are available from school or by phoning 07754 227312.*

Y Cyfnod Sylfaen – fframwaith ar gyfer dysgu plant 3-7 oed yng Nghymru

Fe ganolbwyntir ar 6 Maes Dysgu sef-

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol,Lles ag Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Sgiliau Iaith,Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Datblygiad Mathemategol.
- Gwybodaeh a Dealltwriaeth o'r Byd.
- Datblygiad Corfforol.
- Datblygiad Creadigol.

Mae gweithgareddau'r dosbarth yn cael eu cynllunio'n ofalus, gyda'r plant yn cael ystod o brofiadau fel unigolion, mewn grwpiau a fel rhan o grwp mwy.Bydd y plant yn cael mewnbwn rheolaidd i'r hyn maent yn ei ddysgu.

Foundation Phase Education - Framework for Children's Learning for 3-7 year-olds in Wales

Attention is focused on six Learning Areas-

- *Language, Literacy and Communication Skills.*
- *Mathematical Development*
- *Personal and Social Development, Well-being and Cultural Diversity*
- *Knowledge and Understanding of the World*
- *Physical Development*
- *Creative Development*

Activities offered during the day are based on the above learning areas with children having a wide variety of experiences as individuals or as part of a small or bigger group.The children have a regular input into what they learn.

1. Disgwylir i blant y Dosbarth Meithrin i gydymffurfio a safonau o ymddygiad.
2. Disgwylir iddynt ddangos parch tuag at eraill ac at eiddo'r ysgol ac eiddo eu cyd-ddisgyblion.
3. Disgwylir i rieni ddod a'u plant i mewn a'u casglu o ddrws blaen yr Ysgol yn brydlon am 11.30a.m os nad ydynt yn mynd i'r cylch meithrin.
4. Os yw eich plentyn yn absennol disgwylir i chi hysbysu'r ysgol trwy alwad ffôn cyn 9.00am.
5. Cyfrifoldeb rhieni yw hysbysu'r ysgol os bydd rhywun gwahanol yn casglu'r plentyn. Mae hyn yn bwysig ac ni fyddwn yn gollwng y plentyn i ofal unrhyw un arall onibai ein bod wedi cael gwybod ymlaen llaw.
6. Gofynnir i blant beidio dod a theganau i'r ysgol. Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw degan a dorrir neu a gaiff ei golli.

1. Children in the Nursery Class are expected to conform to certain standards of behaviour within the school.
2. They must respect each other and the school and other people's property.
3. Parents are expected to bring their child into school and collect them from the front door on time- 11.30 a.m unless goingto the cylch meithrin.
4. If your child is absent you are expected to inform the school by phone before 9.00am.
5. It is the parent's responsibility to inform the school if there will be anyone different collecting their child from school. This is important and the school will not hand your child over to anyone else's care unless we have had instructions from the parents to do so.
6. No jewellery should be worn.
7. No toys should be brought to school. The school will not be responsible for any loss or breakages to any toys.

Cysylltu gyda rhieni
Anfonir pob gohebiaeth trwy ebost. Byddwch hefyd yn derbyn neges destun i'ch ffon i ddweud wrthych fod ebost wedi ei anfon.
Mae'n bwysig iawn fod yr ysgol yn cael gwybod os ydy rhif ffon neu gyfeiriad ebost rhiant wedi newid.

Contacting parents
All correspondence will be made through email (appart from some forms). You will also receive a text message to inform you when an email has been sent. It is of the utmost importance that parents inform school when there has been a change of mobile/house telephone number or email address.

Covid-19
Mae gan yr ysgol asesiad risg manwl a threfniadau ar gyfer golchi dwylo ac offer.

The school has a detailed risk assessment and procedures for hand washing and the sanitation of surfaces and equipment.